# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 4 Gorffennaf 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4997

# 150

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 6 gan y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Dechreuodd yr eitem am 14.22

Gofynnwyd y 6 chwestiwn.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 14.43

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth:**

David Rees (Aberafan): Pa ddadansoddiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith y caiff y cyhoeddiad wythnos ddiwethaf ynghylch uno TATA steel a Thyssenkrupp ar y diwydiant dur yng Nghymru?

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addsyg:**

**Atebwyd gan: Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes.**

Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni): Beth yw ymateb Llywodraeth Cymru i'r sylwadau a wnaed gan berchennog Trago Mills fod arwyddion Cymraeg yn annibendod gweledol?

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus:**

Sian Gwenllian (Arfon): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynlluniau adrefnu llywodraeth leol yn dilyn ei sylwadau yng nghynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 29 Mehefin 2018?

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus:**

Vikki Howells (Cwm Cynon): A wnaiff Llywodraeth Cymru ddatganiad am yr achosion diweddar o danau gwair sydd wedi effeithio ar gymunedau ledled Cymru?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.14

Gwnaeth David Rees ddatganiad ar gydnabod cyfraniad y Dr Julian Tudor Hart i ofal iechyd yn Nyffryn Afan a sefydlu'r ddeddf gofal gwrthgyfartal a gydnabyddir gan lawer, erbyn hyn, fel deddf a oedd yn chwyldroadol ar y pryd. Bu farw'r Dr Hart dros y penwythnos.
Gwnaeth Dai Lloyd ddatganiad ynghylch Meic Stephens a fu farw ddoe.
Gwnaeth Vikki Howells ddatganiad ar 90 mlynedd ers Deddf Cynrychiolaeth y Bobl (Etholfraint Gyfartal) 1928
Gwnaeth Janet Finch-Saunders ddatganiad ar Ddiwrnod y Lluoedd Arfog 2018.

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ei ymchwiliad i Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

Dechreuodd yr eitem am 15.21

**NDM6756** Lynne Neagle (Torfaen)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Iechyd Emosiynol ac Iechyd Medwl Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ebrill 2018.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Carillion a Capita

Dechreuodd yr eitem am 16.39

**NDM6740** [Lee Waters (Llanelli)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad ymchwiliad ar y cyd Pwyllgor Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a Phwyllgor Gwaith a Phensiynau Tŷ'r Cyffredin ar y gwersi i'w dysgu yn sgil methiant Carillion.

2. Yn cydnabod adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar sut y mae GIG Lloegr yn rheoli'r contract gwasanaethau cymorth gofal sylfaenol gyda Capita.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi dadansoddiad o'r gwersi i Gymru o'r ddau adroddiad hyn.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig - Da byw yn yr ucheldir - Gohiriwyd tan 19 Medi

## 8 Cyfnod pleidleisio

Nid oedd cyfnod pleidleisio.

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.29

**NDM6758** [Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)]

Mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru: ystyr ystadegau yn ymarferol; rôl Llywodraeth Cymru; ac effaith Brexit ar yr agenda tlodi plant.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.49

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.02, Dydd Mawrth, 10 Gorffennaf 2018**